



Cardigan Bay Marine Wildlife Centre
New Quay
Wales

www.cbmw.org



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales

Gwirfoddolwyr Cadwraeth Forol 2026

Ymunwch â Thîm Cadwraeth Forol Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion! Enillwch brofiad gwerthfawr wrth ein helpu i gasglu data ymchwil ar forfilod Bae Ceredigion ac ysbrydoli ac addysgu'r cyhoedd drwy ein canolfan ymwelwyr a'n digwyddiadau ymgysylltu cymunedol.

Yr Hyn y Cewch Chi Ei Ennill

Dyma gyfle gwych i chi wneud ymchwil forol a chymryd rhan mewn gwaith addysg amgylcheddol ac ymwybyddiaeth. Byddwch yn dysgu am rywogaethau morol Bae Ceredigion ac yn ennill profiad o waith maes, prosesu data, addysg amgylcheddol, ymgysylltu cymunedol a mwy!

Mae gwirfoddolwyr blaenorol wedi mynd ymlaen i ddatblygu eu gyrfaedd academaidd ymhellach, gweithio fel Arsylwyr Mamaliaid Morol, neu weithio i sefydliadau cadwraeth neu lywodraethol.

Y Rôl Wirfoddoli

Bydd gwirfoddolwyr yn cynorthwyo gyda'n hymchwil hanfodol ar fawrfawna morol ac yn cyfrannu at ein gwaith ymgysylltu cymunedol. Bydd tasgau gwirfoddolwyr yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) –

- Arolygon mamaliaid morol o'r tir (bob dydd)
- Arolygon mawrfawna morol ar y cwch *
- Rhedeg ein canolfan ymwelwyr ac ysbrydoli ymwelwyr
- Mewnbynnu a gwirio data ymchwil
- Dadansoddi delweddau adnabod ffotograffig dolffiniaid trwyn potel
- Archwilio recordiadau sain dolffiniaid trwyn potel
- Cynhyrchu cynnwys ar gyfer ein cyfryngau cymdeithasol
- Cynorthwyo gyda digwyddiadau ymgysylltu cymunedol
- Gweithredu glanhau traethau
- Hefyd bydd cyfle i gynorthwyo gyda thasgau eraill e.e. codi arian, neu ymuno â'n fforwm ieuenctid Moroedd Byw (oedran 9–24).

* Mae'r amser a dreulir yn cynnal arolygon ar gwch yn dibynnu ar amodau tywydd ac argaeledd y cwch. Bydd gwirfoddolwyr yn cymryd eu tro i gymryd rhan ac, yn ystod cyfnodau pan nad oes arolygon ar y môr wedi'u trefnu, byddwch yn treulio mwy o amser yn cynnal gweithgareddau ar y tir.



Cardigan Bay Marine Wildlife Centre
New Quay
Wales

www.cbmw.org



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales

Gwirfoddolwyr Cadwraeth Forol 2026

Hyfforddiant Gwirfoddolwyr

Bydd ein tîm o arbenigwyr yn darparu'r hyfforddiant canlynol i wirfoddolwyr –

- Cyflwyniad i CBMWC a WTSWW
- Adnabod rhywogaethau morol
- Technegau arolygon morol
- Prosesu data
- Ymgysylltu cymunedol

Efallai y bydd cyfle hefyd i ennill profiad o deithio ar gwch ac arwain grwpiau bywyd gwyllt drwy ein partneriaeth gyda Dolphin Survey Boat Trips.

Rhinweddau Gwirfoddolwyr

- Brwdfrydedd dros fywyd gwyllt morol a'r amgylchedd
- Brwdfrydig ac yn barod i gyfathrebu â'r cyhoedd a gwirfoddolwyr eraill
- Agwedd aeddfed a chyfrifol
- Ymagwedd ragweithiol gyda'r gallu i gyflawni tasgau'n annibynnol
- Ymagwedd hyblyg at wirfoddoli gan fod tasgau'n dibynnu ar y tywydd ac efallai'n cynnwys dechrau'n gynnar neu orffen yn hwyr

Sylwch fod brwdfrydedd a diddordeb angerddol yn ein gwaith a'r amgylchedd morol yr un mor werthfawr â phrofiad, gan fod hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.

Dyddiadau Gwirfoddoli 2026

Mae swyddi gwirfoddoli ar gael ar y dyddiadau isod. Rhaid eich bod yn gallu gwirfoddoli am gyfnod cyfan.

- Bloc 1 – 23 Mawrth–27 Ebrill (5 wythnos) *
- Bloc 2 – 27 Ebrill–1 Mehefin (5 wythnos) *
- Bloc 3 – 1 Mehefin–6 Gorffennaf (5 wythnos)
- Bloc 4 – 6 Gorffennaf–7 Medi (9 wythnos)
- Bloc 5 – 7 Medi–2 Tachwedd (8 wythnos) *

*** Mae llety ar gyfer y blociau hyn wedi'i gymorthdalw drwy Gronfa Rhwydweithiau Natur .**

Llety Gwirfoddolwyr



Cardigan Bay Marine Wildlife Centre
New Quay
Wales

www.cbmwc.org



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales

Gwirfoddolwyr Cadwraeth Forol 2026

Gellir trefnu llety a rennir ar gyfer gwirfoddolwyr llwyddiannus am gost o £85 yr wythnos, sy'n cynnwys biliau, i'w dalu 4 wythnos ymlaen llaw.

Diolch i gymorth gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur, mae WTSWW yn gallu cyfran-ariannu ffioedd llety ar gyfer Blociau 1, 2 a 5. Bydd y gost ar gyfer y blociau hyn yn £42.50 yr wythnos, i'w thalu 4 wythnos ymlaen llaw. Bwriad y cymhorthdal llety yw cefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ariannol rhag cymryd rhan. Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn cael ei darparu gan y Gronfa Dreftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae blaendal ad-daladwy o £50 hefyd yn ofynnol ac fe'i had-delir os gadewir y llety yn yr un cyflwr ag y cafodd ei ganfod. Sylwch y bydd gwirfoddolwyr yn rhannu ystafelloedd gyda phobl o'r un rhyw. Mae gwirfoddolwyr yn gyfrifol am eu costau teithio, bwyd a llety eu hunain.

Nid yw CBMWC yn berchen ar yr eiddo. Caiff llety gwirfoddolwyr ei ddarparu gan berchennog lleol.

Mae cyfleoedd gwaith rhan-amser gyda'r nos ar gael yn yr ardal leol i wirfoddolwyr sy'n dymuno cael cyflogaeth â thâl yn ystod eu cyfnod yn New Quay. I'r rhai sy'n dymuno gwirfoddoli am fwy nag un bloc, efallai y bydd cyfle hefyd i weithio fel Tywysydd Bywyd Gwyllt gyda Dolphin Survey Boat Trips.

Ffi Weinyddol Gwirfoddolwyr

Bydd ffi weinyddol o £45 yn ofynnol gan bob ymgeisydd llwyddiannus.

Sut i Wneud Cais

Lawrlwythwch ffurflen gais yma ac anfonwch hi drwy e-bost i cbmwc@welshwildlife.org gyda "Cais Gwirfoddolwr Tymhorol Morol 2026" yn y llinell pwnc.

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ar y ffurflen gais, gan dynnu sylw at eich profiad a'r sgiliau rydych wedi'u hennill. Ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hystyried, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r ffurflen yn llawn, gan gynnwys eich argaeledd.

Dyddiad cau – 23:59 nos Sul 1 Chwefror.

Sylwch y bydd llyfdd yn cael eu cynnig i ymgeiswyr addas ar sail "y cyntaf i'r felin".